# PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## ASESIADAU O WARIANT SAFONOL – CASGLU DATA AR GYFER GWASANAETHAU CYMDEITHASOL PERSONOL

### Pwnc

1. Un o gamau gweithredu'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar 30 Ionawr oedd gofyn i'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol roi adroddiad yn un o gyfarfodydd eraill y Pwyllgor ar y posibilrwydd o ymgorffori rhai o'r newidiadau i'r data gwasanaethau cymdeithasol personol yn setliad 2003-04.

### Argymhelliad

2. Dylai'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai gymeradwyo safbwyntiau'r Bwrdd Prosiect Casglu Data Gwasanaethau Cymdeithasol Personol a'r Is-grwp Dosbarthu. Maent o'r farn ei bod yn rhy beryglus ceisio cyflwyno fformwlâu Gwasanaethau Cymdeithasol Personol newydd ar gyfer setliad 2003-04 ac y dylai swyddogion y Cynulliad a'r awdurdodau lleol ganolbwyntio ar roi systemau ar waith i sicrhau y bydd y newidiadau ar gyfer setliad 2004-05 yn ddigon cadarn.

### Amseru

3. Mae'r amserlen arfaethedig ar gyfer cyflwyno'r fformwlâu newydd yn Atodiad 1.

### Cefndir

4. Roedd yr adolygiad o'r fformwla SSA a gynhaliwyd gan Brifysgol Abertawe a Pion Economics yn argymell y dylid defnyddio dull ystadegol a elwir yn fodelu aml-lefel i lunio'r fformwlâu ar gyfer addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol. Er mwyn defnyddio'r dull hwn, rhaid ystyried y wybodaeth islaw lefel yr awdurdod i weld yn fwy eglur y ffactorau sy'n llywio'r angen mewn awdurdodau. Bu'n bosibl defnyddio'r dull ar gyfer gwasanaethau addysg yn yr adolygiad ar gyfer setliad 2001-02 trwy ddefnyddio gwybodaeth ar lefel yr ysgol, ond nid yw hyn wedi bod yn bosibl ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Personol oherwydd nad yw adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yn cadw'r wybodaeth angenrheidiol ar hyn o bryd.
5. Comisiynwyd tîm o Brifysgolion Caerefrog ac Abertawe i ystyried y broblem ac i

awgrymu dull o weithredu. Cyhoeddwyd ei adroddiad ym mis Ionawr 2002.

6. Ar 30 Ionawr rhoddodd Prifysgol Caerefrog gyflwyniad i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar brif bwyntiau'r adroddiad. Un o brif bwyntiau'r adroddiad oedd y byddai'n anodd cyflwyno model newydd ar gyfer setliad 2003-04. Yn sgil y drafodaeth a ddilynodd y cyflwyniad hwnnw, gofynnwyd i'r Gyfarwyddiaeth Ystadegol baratoi papur arall i'r Pwyllgor wedi iddi ystyried yn fwy manwl y materion a oedd yn ymwneud â chyflwyno fformwlâu newydd ar gyfer setliad 2003-04 yn hytrach na setliad 2004-05.
7. Seiliwyd yr ymarfer ymgynghori â'r awdurdodau lleol ar gyflwyno'r dull yn gynt ynghyd â materion eraill a amlygwyd gan dîm y prosiect. Cynhaliwyd dau weithdy (y naill yn y Canolbarth a'r llall yn y Gogledd) fel rhan o'r ymarfer hwnnw. Cafodd yr adborth o'r gweithdai hynny, ynghyd â'r ymatebion ysgrifenedig oddi wrth 10 awdurdod lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, eu trafod gan Fwrdd y Prosiect a oedd yn goruchwylio'r prosiect. Ymhlith aelodau Bwrdd y Prosiect y mae cynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## Adborth

8. Dyma'r prif negeseuon a ddeilliodd o'r adborth:

i. Mwy o ymgynghori: mynegwyd diddordeb mewn gweithdai ymgynghori eraill pan fydd mwy o wybodaeth ar gael ynghylch manylion y modelau a'u heffaith. Yn ogystal, roedd yr awdurdodau lleol am wybod mwy am y profiad o gyflwyno modelu aml-lefel ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol Personol yn Lloegr;

i. Amserlenni: cafwyd cefnogaeth eang i'r syniad o oedi hyd 2003 cyn modelu pob grwp cleient oherwydd:
    a. y bydd data ardal fach cyfrifiad 2001 ar gael (y gwanwyn 2003);
    a. bod yr amser a neilltuwyd i lanhau ac archwilio'r data yn gwrthdaro â gweithgareddau diwedd y flwyddyn ariannol;
    a. nad oes digon o amser i lanhau ac archwilio'r data;
    a. nad oes digon o amser i ddatblygu'r hyn sy'n llywio anghenion nac addasiadau costau awdurdodau, nac i ymgynghori arnynt;
    a. nad oes digon o amser i ystyried y goblygiadau dyrannu;

i. Amserlenni: yr oedd peth cefnogaeth i'r syniad o gyflwyno'r newidiadau yn raddol ond hefyd i'r syniad o roi cymaint o'r newidiadau â phosibl ar waith yn ystod un flwyddyn i gynorthwyo'r gwaith cynllunio ariannol;

i. Samplo Awdurdodau Unedol: Nid yw mwyafrif yr awdurdodau lleol yn gwrthwynebu'r syniad o seilio'r modelau ar sampl o'r Awdurdodau Unedol ond byddai angen profi bod y sampl yn cynrychioli Cymru gyfan.

i. Pwysau addasiadau costau awdurdod: Roedd eisiau mwy o wybodaeth ynghylch y cynlluniau ar gyfer pwysau'r addasiadau costau hyn cyn penderfynu oherwydd y gallai'r pwysau hyn gael effaith sylweddol ar y fformwlâu yn y pen draw;

i. Codau post: Mynegwyd gwahanol safbwyntiau ynghylch faint o adnoddau yr oedd eu hangen i wella cyfradd codio post cofnodion cleientiaid Gwasanaethau Cymdeithasol

Personol awdurdodau lleol. Mewn rhai achosion, cafwyd bod cyfradd godio post dderbyniol eisoes ar waith o ran y data. Mewn achosion eraill, byddai angen cryn ymdrech i wella'r gyfradd codio post ac efallai y byddai angen mwy o gyllid i gynorthwyo â'r gwaith hwnnw;

i. Newid cyfrifoldebau: Amlygodd rhai awdurdodau lleol faterion yn ymwneud ag effaith y modelu yn sgil newid y cyfrifoldeb dros ofal nyrsio ac yn sgil cynnwys strategaeth ymadael ar gyfer grantiau dysgu i'r anabl. Byddai angen mynd ati i ystyried a thrafod hyn ymhellach.

i. Amcangyfrif costau: Codwyd nifer o wahanol faterion yn ymwneud ag amcangyfrif costau ar gyfer modelu. Bydd angen mynd i'r afael â'r materion hyn fesul achos fel rhan o'r broses o drafod ag awdurdodau unigol y camau i baratoi'r data angenrheidiol .

**Yr amserlen arfaethedig**

8. Ar sail yr adborth, paratowyd amserlen arfaethedig (wedi'i chynnwys yn Atodiad 1) ar gyfer casglu data ac ar gyfer yr ymarfer modelu.
9. Mae Bwrdd y Prosiect ac Is-grwp Dosbarthu'r Fforwm Ymgynghori ar Gyllid wedi cymeradwyo'r amserlen gan gydnabod bod gormod o risg ynghlwm wrth fynd ati i geisio cyflwyno'r newidiadau cyn Setliad 2004-05.
10. Paratowyd yr amserlen gyda'r bwriad y bydd y gwaith datblygu'n parhau yn ystod y flwyddyn hon ac y bydd awdurdodau lleol yn cael gwybod am y camau sy'n cael eu cymryd ac yn cael cyfle eto i gyfrannu'u syniadau ynghylch y modelau.
11. Ar hyn o bryd, mae'r amserlen yn nodi y bydd y newidiadau i'r fformwla ar gyfer gwasanaethau i blant a phobl ifanc ac i bobl hyn ar waith yn setliad 2004-05. Bwriedir cyflwyno'r newidiadau i wasanaethau oedolion ar gyfer setliad 2005-06. Efallai y bydd yn rhaid diwygio'r amserlen hon, yn enwedig o ran rhai o'r grwpiau oedolion ar ôl cael cyfle i archwilio peth o'r data sydd ar gael ar hyn o bryd ac i asesu'n well y gwaith o ganfod data ar gyfer modelu.